**Y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio - Papur Cwmpasu**

**Adolygiadau Polisi - meysydd posibl**

**Rhagarweiniad**

Mae Rheol Sefydlog 9.7 yn amlinellu cyfrifoldebau Pwyllgorau Pwnc. Y cyntaf o'r rhain yw "cyfrannu at ddatblygiad polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Gweinidog perthnasol yn atebol i'r Cynulliad yn eu cylch". Un dull y mae Pwyllgorau wedi'i ddefnyddio'n draddodiadol i fodloni'r cylch gwaith yw cynnal adolygiadau polisi. Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd yn Atodiad 1 wedi'i baratoi i gynorthwyo Pwyllgorau Pwnc, Cadeiryddion a Chlercod Pwyllgorau i ddatblygu cynigion a rhaglenni gwaith ar gyfer adolygiadau polisi.

**Adolygiad Polisi y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio 2003-04**

Mae'r Nodyn Cyfarwyddyd yn pwysleisio pwysigrwydd dewis pwnc penodol iawn y mae ei amcanion eisoes wedi'u pennu. Yn y cyd-destun hwn, gallai Aelodau ddymuno ystyried y pynciau canlynol fel pynciau posibl i'w hadolygu yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

**Camddefnyddio Sylweddau**

O fewn pennawd cyffredinol y pwnc, gallai'r canlynol fod yn feysydd i'w hadolygu ymhellach:

- Yr hyn a gynigir o fewn y sector triniaeth, gan gynnwys materion yn ymwneud â hyfforddiant, safonau a chyllid (sut y bydd ad-drefnu iechyd yn effeithio ar y modd yr ariennir gwasanaethau triniaeth y GIG: triniaeth drwy bresgripsiwn, dadwenwyno ac ati). Yn ogystal, cysylltiadau ag amseroedd aros.

- Adfer a Gwasanaethau Dadwenwyno i Gleifion Mewnol - y mynediad atynt a'r gwasanaethau sydd ar gael mewn gwahanol lefydd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar effaith cofrestru â'r Arolygiaeth Safonau Gofal

- Cyfrifoldeb strategol am gyflwyno arferion da a safonau ansawdd - archwilio ac arolygu, monitro a gwerthuso

- Effaith datblygiadau mewn gwasanaethau cyfiawnder troseddol ar bolisïau a gwasanaethau a gyflwynir mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau

- Cysoni dangosyddion perfformiad a thargedau, yn arbennig o fewn cyd-destun cyflwyno Gwasanaeth Iechyd a Chyfiawnder Troseddol.

- Gweithredu'r agwedd alcohol ar Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau Cymru. Effaith hyn ar gyffuriau anghyfreithlon (o ran cyllid ac ati).

**Trais yn y cartref**

Cyfrannu at ddatblygiad polisi cenedlaethol ynghylch trais yn y cartref a chamdriniaeth - gan efallai ganolbwyntio ar agwedd benodol.

**Cyfiawnder Ieuenctid**

Cyhoeddwyd y Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan ar 2 Ebrill 2003.

**Y Sector Gwirfoddol**

Mae gan y Sector Gwirfoddol swyddogaeth bwysig o ran darparu gwahanol wasanaethau sy'n effeithio ar yr agenda cyfiawnder cymdeithasol. Credir bod cyllid (tymor byr, prosiectau yn erbyn craidd, anhyblygrwydd ac ati) yn fater allweddol ar draws sawl math o wasanaeth.

**Tai**

Digartrefedd - pennu a hyrwyddo arferion da o ran ymdrin â digartrefedd (rhestrir fel gweithgaredd o dan Ymchwil a Gwerthuso yn y Cynllun Gweithredu Digartrefedd).

Mae Stoc Tai Hn Cymru yn cynnwys y gyfradd uchaf o hen dai yn y DU. O ganlyniad mae'n rhaid gweithio mewn ffordd strategol er mwyn dod o hyd i ateb. Gallai'r Pwyllgor gyfrannu at bennu strategaeth o'r fath.

Anghenion Pobl Hn o ran Llety - credir y bydd yn flaenoriaeth i'r Cynulliad newydd, ac yn arbennig o ystyried y cynnydd yn nifer y bobl hn - sut i gadw pobl yn eu cartrefi presennol â chymorth (cysylltiadau â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Dirprwy Weinidog dros Bobl Hn).

**Economi Gymdeithasol**

Rhan yr Economi Gymdeithasol yn y gwaith o Adfywio Cymunedau

***Gwrth-Dlodi***

Undebau Credyd

**Adfywio/Cymunedau yn Gyntaf**

Cyfrannu at y gwerthusiad o Gymunedau yn Gyntaf a gomisiynir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru - yn gysylltiedig ag adolygiad polisi Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai o Gynyddu Gallu?

**I gloi**

Deallaf y bwriedir cynnal adolygiadau annibynnol o Undebau Credyd a'r Sector Gwirfoddol a bod y Cynulliad wedi cymeradwyo strategaeth ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yn ddiweddar. Deallaf hefyd fod tri grp yn cydweithio â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar wahanol agweddau ar Drais yn y Cartref. O ganlyniad gallai Aelodau deimlo ei bod yn amhriodol ar hyn o bryd i gynnal adolygiadau polisi yn y meysydd hyn.

Mae briffiau ychwanegol wedi'u paratoi er gwybodaeth i Aelodau ynghylch Camddefnyddio Sylweddau, Stoc Tai Hn Cymru a Thai ar gyfer Pobl Hn. Gweler y rhain yn Atodiadau 2, 3 a 4.

Ysgrifenyddiaeth Y Pwyllgorau

Mehefin 2003